**LC1466**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

# Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Gwynedd) 2007

Mae’r Gorchymyn hwn yn dynodi Sir Gwynedd fel ardal barcio a ganiateir ac ardal barcio arbennig yn unol ag Atodlen 3 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 ac yn cymhwyso, gydag addasiadau, darpariaethau penodedig Rhan II o’r Ddeddf honno i’r ardal a ddynodir. Mae’r Gorchymyn hefyd yn addasu Deddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984 o ran yr ardal honno.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Mae’r Gorchymyn hwn yn dilyn Gorchymyn tebyg a wnaed y llynedd o ran Conwy. Er ei fod yn ymddangos fel offeryn statudol lleol, mae’r Gorchymyn hwn yn dilyn gweithdrefn lawn Rheol Sefydlog 24 yn llawn gan fod y Ddeddf Traffig Ffyrdd yn darparu ar gyfer cymhwyso gweithdrefn seneddol ar gyfer gorchmynion o’r fath.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**27 Chwefror 2007**